# Cyflwyniad 

Nid yw plant bellach yn treulio'u hamser yn chwarae y tu allan, yn mynd yn frwnt yn y mwd ac yn chwilio am chwilod. Nid yw'r rhan fwyaf o blant yn gallu adnabod ein rhywogaethau mwyaf cyffredin ac nid ydynt yn ymwybodol o'r fwyalchen yn canu yn y coed neu'r fronfraith yn chwilio am fwydod yn yr ardd! Mae natur ym mhob man, yn ein hysgolion, yn y parc lleol ac yng ngardd gefn pawb! Gellir defnyddio'r mannau hyn wrth gynllunio gwersi I'n galluogi i gyflwyno byd natur i'n plant, gan eu galluogi i gael eu rhyfeddu'n llwyr gan gylchoedd bywyd, ymddygiad bwydo a harddwch y planhigion a'r creaduriaid sy'n byw o'n cwmpas!

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn gallu'ch helpu i ddefnyddio'ch mannau natur lleol wrth gynllunio'ch gwersi. Mae'n llawn cynlluniau gwersi, adnoddau y gellir eu lawrlwytho a gemau difyr i helpu plant i ddeall pwysigrwydd bywyd gwyllt! Mae'r pecyn hwn wedi'i anelu at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2, ond gellir ei addasu hefyd ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Mae bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol yn elfennau allweddol o fframwaith Addysg ar gyfer Dysgu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a dylid ei gynnwys ym mhob maes o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae bod yn yr awyr agored a phrofi natur yn cydweddu'n hawdd â'r Cwricwlwm Gwyddoniaeth, ond dylid ei ddefnyddio ym mhob gwers arall. Er enghraifft, bydd plant yn datblygu sgiliau iaith mewn amgylchedd newydd a digyffro; gellir defnyddio darganfod mannau gwyllt newydd i ysgrifennu straeon a cherddi gwych; gellir defnyddio'r lliwiau a'r gweadau mewn celf; mae darllen map yn dod yn realiti pan fydd y plant allan mewn gwarchodfa natur neu barc lleol a gellir recordio'r holl brofiadau newydd hyn trwy ddefnyddio TGCh!

Mae bioamrywiaeth (sy'n golygu amrywiaeth bywyd) i'w weld ym mhob man! Gellir gwneud gwaith maes ar safle'r ysgol neu allan yn y parc lleol, mewn pwll neu ar lan y môr. Nid yw teithiau natur bioamrywiaeth yn ddrud a bydd y pecyn hwn yn rhoi'r hyder i chi arwain gweithgareddau sy'n ddifyr ac yn addysgol.

Cyn mynd ar unrhyw daith natur, mae'n rhaid i athrawon ystyried iechyd a diogelwch. Cyn mynd â grŵp ysgol allan, cofiwch ymweld â'r lle ymlaen llaw i wirio cyfleusterau megis toiledau a maes parcio. Cofiwch gwblhau asesiad risg, gan nodi peryglon megis sbwriel a pheryglon cwympo. Ar y diwrnod, bydd yn rhaid i chi fynd â digon o oedolion a chofio'r cymorth cyntaf, y ffôn symudol, y dillad sbâr, hetiau hael a digon o ddŵr. symudol, y dillad sbâr, hetiau hael a digon o ddŵr. Os yw'r daith natur wedi cael ei threfnu'n dda, bydd y diwrnod yn mynd yn esmwyth a bydd pawb yn dysgu dwlu ar eu hamgylchedd lleol. Mae amrywiaeth eang o gynefinoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot y gellir eu hastudio,

eu cymharu a'u mwynhau.  Trwy brofi eu coetir, eu pyllau neu eu glan môr lleol, bydd plant yn deall amrywiaeth y bywyd sy'n byw ar garreg eu drws!

Yn dilyn taith, efallai yr hoffech weithio gyda'ch disgyblion i ddatblygu'ch mannau natur ysgol eich hunain.  Gyda gostyngiad mewn lleoedd gwyrdd ar draws y DU, mae safle ysgol hefyd yn gallu bod yn gynefin pwysig, gan gynyddu bioamrywiaeth yr ardal leol.  Beth bynnag yw maint eich ysgol, faint o lawnt neu goncrid sydd, mae cyfleoedd bob amser i wella'r safle ar gyfer bioamrywiaeth!  Er bod digon o le gan rai ysgolion i ddatblygu dolydd, plannu coed, gosod gwrychoedd a chloddio pyllau, efallai bydd llawer o ysgolion eraill nad ydynt yn gallu neilltuo ond cornel wyllt fach yn y maes chwarae!  I rai ysgolion, efallai y bydd angen datblygu gerddi natur bach mewn blychau ffenestr a biniau ailgylchu.  Beth bynnag yw'ch lleoliad, mae'n bosibl cael man natur.  Cysylltwch ag Uned Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot a fydd yn gallu'ch helpu i ddatblygu cynllun gweithredu.

Gobeithiwn y bydd y pecyn hwn yn rhoi'r hyder a'r awydd i fynd â'ch plant allan i'r ardal leol!  Lapiwch yn dwym, rhowch eich welis amdanoch ac ewch allan.  Mae llawer o ryfeddodau ym mhob man natur ym mhob tymor sy'n aros i gael eu harchwilio!

# Cynnwys

Cyflwyniad
Adnoddau Cyffredinol
Gerddi
Pyllau
Glan y Môr
Coetiroedd